# Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol

## Diweddariad Awst 2022 y Bwrdd Rhaglen Strategol

***Croeso i rifyn Gorffennaf e-gylchlythyr misol y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (RhSGS).***

## Newyddion

**Iechyd Meddwl a Lles:** cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu ddydd Mercher 3 Awst. Daeth nifer da o bobl i'r sesiwn gyda dros 100 o gydweithwyr â diddordeb mewn Iechyd Meddwl a Lles o bob rhan o Gymru sy'n gweithio ym maes Gofal Sylfaenol, Gofal Cymdeithasol, 3ydd Sector a Byrddau Iechyd yn bresennol. Os nad oeddech yn gallu mynd i'r sesiwn ymgysylltu, gallwch wylio recordiad o'r cyflwyniad yma a chyflwyno eich cwestiynau ac adborth ymlaen llaw i SPPC@wales.nhs.uk gan ddefnyddio'r pennawd pwnc *Adborth a Chwestiynau IMLl—rhannwch unrhyw gwestiynau cyn diwedd mis Awst.* Caiff dogfen holi ac ateb ei chyhoeddi a'i rhannu ar wefan PCOne maes o law a bydd yr adborth o hyn, a sesiwn ymgysylltu BI benodol arall yn cael ei ddefnyddio i lywio'r papur terfynol a fydd yn cael ei lansio ddiwedd yr haf/ddechrau'r hydref.

Cafodd **Fframwaith a Chynllun Dyfarnu Gofal Sylfaenol Gwyrddach** ei lansio'n swyddogol ar 8 Mehefin gyda bron 100 o safleoedd gofal sylfaenol wedi'u cofrestru. Mae cyfle o hyd i chi ymuno a darganfod mwy trwy fynd i wefan Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru.

Mae Pecyn Cymorth Rheoli Prosiectau wedi cael ei lansio. Mae'n cynnwys adnoddau sydd wedi'u dylunio i gefnogi clystyrau, GCTG a Byrddau Iechyd wrth sefydlu a rheoli prosiectau.

Mae offer ac adnoddau **Datblygiad Clwstwr Carlam** yn parhau i gael eu lanlwytho i'r pecyn cymorth DCC. Mae'r ychwanegiad diweddaraf yn cynnwys y broses ar gyfer Adolygiadau Cymheiriaid Clwstwr a gaiff eu cynnal yn Chwarter 3 y flwyddyn bontio DCC. Mae dogfennau Adolygu Cymheiriaid i'w gweld ym Mhennod 7 y pecyn cymorth DCC . Mae'r Cylch Gorchwyl enghreifftiol ar gyfer Grwpiau Cynllunio Traws-Glwstwr ym Mhennod 4 ac am Gyfarfodydd Clwstwr ym Mhennod 3.

Cynhaliodd y **Grŵp Cyfeirio Gofal Cymunedol Sylfaenol** sesiwn benodol ar 27 Gorffennaf gyda'r ffocws ar ddiweddaru'r cylch gorchwyl, cadarnhau ffocws y grŵp ac ystyried eitemau ar yr agenda yn y dyfodol. Bydd cyfarfod nesaf y grŵp cyfeirio yn cael ei gynnal ar 29 Medi.

## Cerrig Milltir Allweddol

Mae gwaith yn y RhSGS wedi symud ymlaen ac yn parhau ar y trywydd iawn o ran darparu'r cynhyrchion y cytunwyd arnynt. Mae'r cyflawniadau allweddol y chwarter hwn yn cynnwys:

**Cydweithfeydd Arweinyddiaeth Broffesiynol / Gweithwyr Nyrsio Proffesiynol** Cynhaliwyd gweithdai Cydweithfeydd Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gweithwyr Nyrsio Proffesiynol Cenedlaethol â phresenoldeb gwych ledled Cymru, gyda 7 gweithdy rhanbarthol arall yn yr arfaeth ar gyfer Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Nyrsio.

Mae'r **Porth Cymorth Cynllunio Clwstwr** (PCCC) yn parhau i gael ei ddiweddaru trwy ychwanegu adran am 'y diweddaraf' i gynnwys gwybodaeth am grwpiau agored i niwed ac ymylol - mae'r adnodd ar-lein hwn yn cefnogi datblygu cynlluniau blynyddol y Grŵp Cynllunio Clwstwr/Traws-glwstwr.

**Rhaglen Cyfraith Gofal Gwrthgyfartal** Cafodd fersiwn derfynol Adroddiad Diweddaru Cyfraith Gofal Gwrthgyfartal 2022 ei chymeradwyo gan y llif gwaith Atal a Lles (8 Gorffennaf) a Bwrdd y Rhaglen Strategol (5 Awst). Mae'r adroddiad wedi'i gyhoeddi ar wefan y Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol (RhSGS) ac mae ar fin cael ei ledaenu i randdeiliaid ehangach.

## Cadwch lygad am y canlynol:

Cynhaliwyd **Gweminar Conffederasiwn y GIG: 'Gofal Seiliedig ar Leoedd' ar waith yng Nghymru** ar 7 Gorffennaf. Roedd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg strategol cryno o ofal yn seiliedig ar leoedd o safbwynt gwaith clwstwr cyn edrych yn fanwl iawn ar 'ofal yn seiliedig ar leoedd' ar waith yng Nghymru. Clywsom gan amrywiaeth o randdeiliaid a oedd yn gweithio gyda'i gilydd ar lefel clwstwr cyn y pandemig yn ogystal â'u meddyliau am eu sefyllfa ar hyn o bryd. Gallwch wylio recordiad o hyn yma.

**Atal Diabetes (AWDPP)** Cafodd y rhaglen ei lansio i gyd-fynd ag 'Wythnos Ymwybyddiaeth Diabetes' a gynhelir gan Atal Diabetes y DU yn ystod wythnos 13-19 Mehefin, a oedd yn cynnwys ymweliad gan y Dirprwy Weinidog â Bwrdd Iechyd Bae Abertawe i glywed gan gleifion a gweithwyr proffesiynol am y Rhaglen.

Mae'r pecyn cymorth Datblygiad Clwstwr Carlam ar-lein wedi cael ei ddiweddaru wrth gyhoeddi'r bennod am CBC gan gynnwys yr astudiaeth Barcud Coch. Mae'r pecyn cymorth yn parhau i fod yn adnodd rhagorol sy'n darparu gwybodaeth i randdeiliaid er mwyn iddynt gefnogi'r gwaith o weithredu'r rhaglen DCC yn ystod blwyddyn bontio 2022/23.

Cafwyd diweddariadau parhaus i wefan y RhSGS a weinyddir gan PCOne, gan gynnwys Sianel YouTube y RhSGS.

### *Cysylltwch â'r RhSGS*

***yn:*** sppc@wales.nhs.uk

***Dilynwch ni***: @SPPCWales

Rhaglen Strategol - Gofal Sylfaenol Un (gig.cymru)

***Cliciwch yma i weld ein fideos a'n recordiadau o ddigwyddiadau***

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn Ddiweddar

**7 Gorffennaf** Sesiwn Ddatblygu **Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru**

**13 Gorffennaf** Aeth cynrychiolwyr llif gwaith Atal a Lles (BALl) cyfarfod y **Grŵp Cymheiriaid Is-gadeiryddion** i drafod rhaglen waith atal Gofal Sylfaenol.

**21 Gorffennaf** Trafodaeth **Grŵp Cymheiriaid Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru** (IGDC) gydag Arweinwyr Rhaglen Strategol Genedlaethol

**3 Awst** Yn bresennol yng nghyfarfod **Grŵp Gweithredol Canolfan PRIME Cymru** i drafod y Rhaglen Strategol

**19 Awst** Trafodaeth y **Grŵp Cymheiriaid Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus**